

Croeso i'ch Cartref Newydd

Ar ran Cyngor Caerdydd, hoffwn eich croesawu chi i'ch cartref newydd. Gobeithio y byddwch chi a'ch teulu yn hapus yma ac yn dod yn rhan o'ch cymuned leol.

Ein Cyfrifoldeb i Chi

Fel eich landlord, mae'n rhaid i ni ddarparu llety sydd mewn cyflwr da ac sydd wedi cael ei edrych ar ôl yn dda. Yn eich Pecyn Croeso, fe welwch chi ein Datganiad Gofal Cwsmeriaid. Rydyn ni am i chi fod yn falch o fod yn denant i Gyngor Caerdydd ac yn falch o'r gwasanaeth yr ydym ni'n ei ddarparu.

Ond os byddwch yn cael anawsterau, cysylltwch â ni. Mae'r rhif ffôn isod yn dweud wrthy ych gyda phwy y dylech siarad os byddwch yn cael problemau. Os byddwch yn cael trafferth talu'ch rhent neu drafferth gyda'r cymdogion, cysylltwch â ni.

Eich Cyfrifoldeb fel Tenant

Fel tenant, dylech barchu'ch cymdogion, eich cymuned a Swyddogion y Cyngor sy'n darparu gwasanaethau. Mae gennych hefyd gyfrifoldeb i edrych ar ôl yr eiddo a'r ardd/adeiladau allanol lle bo hynny'n briodol.

Os byddwch yn cael anhawster o ran ymdopi ag edrych ar ôl yr eiddo, siaradwch â ni ac fe wnawn ni'n gorau i'ch helpu.

Ni fydd Cyngor Caerdydd yn goddef tenantiaid sy'n difrodi eu tai neu eu cymunedau neu sy'n achosi niwsans neu'n ymddwyn yn dreisgar tuag at eu cymdogion. Mae'r Cyngor yn llym iawn o ran ymddygiad gwael, a hynny er budd pob tenant. Fe wnawn ein gorau i ddatrys unrhyw broblemau, ond byddwn yn sicr yn gweithredu i gael gwared ar denantiaid sy'n trin eu heiddo, eu cymdogion neu staff y Cyngor, yn wael.

Proud to Deliver
Yn Falch o Gyflawni



Tenantiaeth Ragarweiniol

Os ydych yn denant gyda'r Cyngor am y tro cyntaf, byddwch yn cael tenantiaeth ragarweiniol am 12 mis. Mae hyn yn golygu y byddwn yn adolygu'r ffordd yr ydych wedi ymddwyn mewn cysylltiad â'ch tenantiaeth cyn cadarnhau'ch tenantiaeth. Mae tenantiaeth ragarweiniol yn rhoi cyfle i landlordiaid cymdeithasol weithredu'n gyflym i ddod â thenantiaeth rhywun sy'n peri anawsterau i ben, er budd y gymdogaeth a'r gymuned.

Sut i gysylltu â ni

Materion cyffredinol: 029 20537111
Atgyweiriadau: 029 20872088
Ymddygiad gwrthgymdeithasol: 029 20537111
Materion yn ymwneud â'r rhent: 029 20537350

Sut i gwyno

Rydyn ni'n parchu'ch hawliau fel tenant a byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i fod yn landlord da. Weithiau, fodd bynnag, bydd pethau'n mynd o'i le ac, fel llawer o sefydliadau, rydyn ni'n ceisio dysgu o gwynion. Os oes cwyn gennych chi, ffoniwch ni ar un o'r rhifau ffôn a restrir uchod.

Os na fyddwch yn fodlon ar yr ateb, gallwch gysylltu â 'Cysylltu â Chaerdydd' (C2C) ar 029 20872 088. Mae gan Adran Gwynion y Cyngor broses ffurfiol ar gyfer ymchwilio i gwynion.

Os, ar ôl hynny, na fyddwch yn fodlon o hyd, gallwch ddweud wrth yr Ombwdsmon Llywodraeth leol am eich materion a/neu gallwch ystyried cymryd camau cyfreithiol.

Cymerwch Ran

Yng Nghaerdydd, mae gennym ni Ffederasiwn Tenantiaid gwych ac amryw Gymdeithasau Tenantiaid ac rydyn ni'n awyddus iawn i gynnwys tenantiaid mewn penderfyniadau. Os hoffech chi gyfrannu, ffoniwch 029 20 537 236 i siarad â rhywun a fydd yn gallu'ch helpu chi.

Rydym yn eich annog i fod yn rhan o'ch cymuned leol ac awgrymwn eich bod yn cysylltu â Chyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC – sef hen sefydliad Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd) am wybodaeth am weithgareddau yn eich ardal a byddai'n dda petaech yn cymryd rhan yn ein Strategaeth 'Beth sy'n Bwysig'. Gallwch gael gwybodaeth ar hyn o'r wefan hon: www.caerdydd.gov.uk.

